Adroddiad ar

Cylch Meithrin Llanddarog a Drefach
Ysgol Y Gwendraeth
Derfach
Llanelli
SA14 7AB

Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2019

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Llanddarog a Drefach

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Llanddarog a Drefach |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Kim Lewis |
| Person â gofal | Kim Lewis |
| Nifer y lleoedd | 40 |
| Amrediad oedran y plant | 2-3 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 17 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Dydd Gwener 08.00am-5.30pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu "cynnig gweithredol" y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhag-weld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg a'i diwylliant |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Gorffennaf 2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Rhagfyr 2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 29 a 30 Ebrill 2019 |

## Gwybodaeth ychwanegol

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu** **(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Digonol** |
| **Gofal a datblygiad** | **Digonol** |
| **Addysgu ac asesu** **(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Digonol** |
| **Yr amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

**Gwnaethom hysbysu'r darparwr bod angen gwelliannau mewn perthynas â'r rheoliadau canlynol, ac mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn er mwyn cwrdd â'r gofynion cyfreithiol yn llawn;**

Rheoliad 16: Adolygu Ansawdd y Gofal: Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sefydlu a chynnal system effeithiol ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a roddir i blant yn flynyddol

Rheoliad 28: Addasrwydd Gweithwyr: Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn cydymffurfio â'r rheoliad hwn am nad yw wedi sicrhau bod ganddynt ddau eirda ar gyfer pob ymarferwr

Rheoliad 31: Darparu Gwybodaeth: Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi hysbysu AGC am ddigwyddiadau penodol o dan y rheoliad hwn

**Nid ydym wedi cyhoeddi hysbysiad ar yr achlysur hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol ac arwyddocaol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau i unioni hyn, a chaiff ymater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.**

## Argymhellion

A1 Cryfhau medrau llafar y plant

A2 Sicrhau cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau annibynnol y plant yn effeithiol

A3 Cynllunio'n fwriadus i alluogi plant i gymhwyso eu medrau'n gynyddol ar draws y cwricwlwm

A4 Sicrhau bod yr asesiadau risg yn cael eu diweddaru'n amserol

A5 Cryfhau'r systemau sy'n bodoli i sicrhau bod pob cofnod a dogfen yn gywir, yn effeithiol ac yn cael eu cwblhau'n amserol.

A6 Mynd i'r afael â phob achos o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn a/neu AGC yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae rhan fwyaf y plant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni. Maent yn ymgartrefu'n gyflym ac yn mynd yn syth at eu gweithgareddau heb ffwdan. Mae gan bron pob un berthynas hyfryd gyda'r ymarferwyr ac yn gwybod y gallant droi atynt am gymorth os oes angen.

Mae rhan fwyaf y plant yn hyderus wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau effeithiol ynglŷn â'u chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, mae rhan fwyaf y plant yn gallu mynegi'n glir pa gân y maent eisiau canu yn ystod amser cylch. Mae mwyafrif y plant yn hyderus i fynegi eu barn yn effeithiol. Wrth ymgynnull ar gyfer bwyd, mae rhan fwyaf y plant yn ymateb yn briodol i sgwrs gyda'r ymarferwyr er mai byr iawn yw'r ymatebion fel arfer.

Caiff y rhan fwyaf o blant gyfle i drafod eu teimladau ac maent yn sensitif i emosiynau pobl eraill. Er enghraifft, mae rhan fwyaf y plant tair oed yn adnabod geirfa mewn stori sy'n cyfleu teimladau ac yn eu cyfateb i wynebau hapus, trist ac ofnus.

Mae rhan fwyaf y plant yn ymddwyn yn dda. Maent yn dangos parch at yr adnoddau a'u cyfoedion, yn rhannu adnoddau ac yn dechrau cymryd eu tro yn llwyddiannus. Er enghraifft, wrth gymdeithasu ac aros eu tro wrth chwilio am frogaod yn y twba dŵr.

Mae llawer o blant yn gallu adnabod eu henwau wrth hunangofrestru yn ystod amser cylch ac mae rhan fwyaf y plant yn mwynhau'r gweithgareddau amrywiol sydd ar gael iddynt. Pan fo'r plant yn cael cyfleoedd i wneud pethau'n annibynnol, maent yn cyflawni'n dda.

Mae rhan fwyaf y plant hŷn yn gallu cadw diddordeb a chanolbwyntio ar weithgareddau, yn enwedig chwarae rhydd, am gyfnod sy'n briodol i'w hoed. Er enghraifft, roedd tipyn o gyffro y tu allan wrth i'r plant chwarae ar y beiciau a'r plant yn gallu canolbwyntio'n ofalus iawn am gyfnodau pwrpasol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Digonol**

Mae mwyafrif y plant yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd o'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid yw ychydig o blant mwy galluog bob amser yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent.

Gan ystyried eu mannau cychwyn, mae llawer o blant yn gwneud cynnydd da gan ddatblygu dealltwriaeth ddefnyddiol o'r iaith yn fuan ar ôl cychwyn yn y lleoliad. Mae bron pob un yn gwrando'n dda gan ymateb i gyfarwyddiadau dyddiol yn gywir ac ymateb yn syml i gwestiynau. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y plant yn hyderus wrth drafod yn y Gymraeg ac o ganlyniad, prin yw eu hymatebion estynedig mewn

brawddeg. Mae llawer yn dangos mwynhad o fynd i'r gornel ddarllen i wrando ac ymateb i stori, gyda mwyafrif yn dewis mynd yno o'u gwirfodd. Maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o sut i ddal llyfrau a throi tudalennau'n gywir. Mae llawer o blant yn defnyddio pensiliau ffelt, sialc a phaent i wneud marciau yn annibynnol a chyda rheolaeth gynyddol. Fodd bynnag, nid ydynt yn ymarfer dilyn patrwm yn ddigon cyson i ddatblygu rheolaeth a marcio i bwrpas.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau rhifedd da. Maent yn cyfrif gwrthrychau i bump yn gywir, er enghraifft wrth gyfrif sawl trychfil gwahanol aeth i geg Bili Broga. Mae lleiafrif o blant yn cyfrif â chywirdeb i ddeg a thu hwnt heb anogaeth. Gall lawer enwi siapiau dau ddimensiwn syml yn gywir. Maent yn cymharu maint gwrthrychau â'i gilydd yn hyderus ac yn gallu nodi ar lafar os ydynt yn 'llai' neu'n 'fwy', yn 'fach', neu'n 'fawr'.

Mae llawer o blant yn dechrau defnyddio ystod o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn lled hyderus trwy ddefnyddio cyfrifiadur, llechi cyfrifiadurol, a dyfeisiau electronig mewn gweithgareddau ffocws a pharhaus. Mae llawer yn datblygu medrau echddygol manwl yn fedrus wrth ddysgu rheoli llygoden y cyfrifiadur yn bwrpasol wrth greu llun o froga piws.

Mae'r plant yn datblygu medrau annibynnol yn briodol a gall mwyafrif olchi eu dwylo, a rholio eu llewys yn annibynnol. Fodd bynnag, nid yw eu medrau datrys problemau wedi'u datblygu'n ddigonol. Er enghraifft, nid oes digon o gyfleoedd ar gael iddynt ddatblygu eu medrau datrys problemau yn ystod chwarae rôl a gweithgareddau awyr agored.

Mae mwyafrif y plant yn datblygu medrau corfforol da wrth ddefnyddio blociau i adeiladu tŵr neu wrth bedalu ar feic tair olwyn. Fodd bynnag, nid yw eu medrau i gymryd rhan mewn gweithgareddau mentrus neu i daflu at darged wedi datblygu yn ddigon cadarn. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau creadigol effeithiol, er enghraifft wrth greu lluniau a phaentio. Mae llawer yn galw ffeithiau i gof ac yn dechrau datblygu medrau meddwl yn briodol wrth ymateb i gwestiynau a dyfalu beth all ddigwydd nesaf.

**Gofal a datblygiad: Digonol**

Mae bron pob ymarferwr yn gweithredu'r polisi ymddygiad yn effeithiol ac mae'r rhan fwyaf yn canmol y plant am ymddygiad da. Mae gan bron pob un o'r ymarferwyr ddealltwriaeth briodol o'r polisi amddiffyn plant ac yn ymwybodol o'r prosesau sydd i'w dilyn.

Mae gan bron pob un ymarferwr dystysgrifau cymorth cyntaf a hylendid bwyd cyfredol ac maent yn dilyn y polisiau yn effeithiol. Er enghraifft, mae golchi dwylo yn rheolaidd yn rhan annatod o'u prosesau ac maent yn gallu trin mân anafiadau neu ddigwyddiadau yn effeithiol. Maent hefyd yn cofnodi digwyddiadau a damweiniau'n briodol. Caiff driliau tân eu cynnal yn rheolaidd ac mae'r arweinydd yn cadw cofnod

yn lled drefnus. Mae systemau digonol yn eu lle i gofrestru plant ac ymarferwyr yn ddyddiol ond nid yw'r system bob amser yn ddigon effeithiol ac mae anghysondeb yn y modd y caiff presenoldeb ei weinyddu.

At ei gilydd, mae gan yr ymarferwyr y manylion angenrheidiol am y plant ynghyd â chaniatâd ar gyfer triniaethau meddygol mewn argyfwng. Fodd bynnag, mewn lleiafrif iawn o achosion, nid yw pob dogfen ychwanegol sy'n cynnwys caniatadau yn cael eu casglu cyn i'r plant ddechrau yn y lleoliad. Nid yw'r broses recriwtio yn cwrdd â'r gofynion bob amser ac nid yw'r asesiadau risg yn cael eu diweddaru'n amserol. O ganlyniad, nid yw trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynionyn ddigonol ac maent yn destun pryder.

Mae llawer o'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd digonol i'r plant ddatblygu eu medrau annibynnol ond mae'r mwyafrif yn ymyryd yn ormodol ar adegau. Er enghraifft wrth beidio trosglwyddo dyletswyddau i'r plant i osod y bwrdd a gweini lluniaeth i'w cyfoedion amser byrbryd. Mae system helpwr y dydd yn bodoli ond nid yw'n cael ei ddefnyddio'n gyson ac i'w lawn botensial ar hyn o bryd. Am hynny, nid yw'r plant yn cael digon o gyfleoedd i arfer a datblygu eu sgiliau annibynnol yn llawn.

Mae'r ymarferwyr yn cefnogi'r plant yn briodol yn ystod gweithgareddau ond nid ydynt pob tro yn eu cwestiynu'n ddigon effeithiol er mwyn ymestyn eu medrau meddwl yn ddigon effeithiol. Mae'r ymarferwyr wrthi'n gweithredu'r newidiadau sydd wedi eu cyflwyno'n ddiweddar iawn i wella'r ddarpaiaeth. Er enghraifft, maent wedi adrefnu'r modd y maent yn darparu'r gofal a'r addysg ond nid yw'r newidiadau hynny wedi cael digon o gyfle i ddwyn ffrwyth yn llawn hyn yma.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac wedi meithrin perthynas agos gyda nhw. Maent yn cynnig gofal ymatebol. Er enghraifft, roeddynt yn cynnig gofal ymatebol i blant newydd ac yn eu cysuro'n effeithiol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Digonol**

Un o gryfderau'r lleoliad yw'r berthynas waith cadarnhaol sydd gan ymarferwyr â'r plant a'r modd y maent yn defnyddio canmoliaeth ac yn rheoli ymddygiad plant yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae llawer yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau yn ystod sesiynau.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth addas o egwyddorion y cyfnod sylfaen. Maent yn ymateb yn briodol i hyfforddiant mewnol gan yr awdurdod lleol ac yn cynllunio ystod o brofiadau dysgu buddiol sy'n llwyddo i ennyn diddordeb llawer o blant. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau a arweinir gan blant a rhai a gyfarwyddir gan oedolion.

Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi mabwysiadu system gynllunio newydd er mwyn ymateb yn well i athroniaeth y cyfnod sylfaen. Mae'r cynlluniau yn dechrau adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol plant gan gynnig cyfleoedd gwerthfawr i

ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd plant yn ystod tasgau â ffocws. Mae'r ymarferwyr yn parhau i fireinio'r cynllunio fel bod plant yn datblygu medrau yn ddigon systematig tros gyfnod. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio'n nodi gweithgareddau ar wahanol lefelau i herio pob plentyn yn ddigon effeithiol nac yn sicrhau bod plant yn ymarfer eu medrau rhifedd na TGCh ar draws y meysydd dysgu yn ddigon aml.

Mae'r lleoliad yn gwahodd ymwelwyr ac yn defnyddio'r ardal leol i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn effeithiol. Er enghraifft, mae ymweliad â siop anifeiliaid anwes wedi datblygu eu dealltwriaeth o sut i ofalu am greaduriaid byw yn dda. Mae'r plant yn dysgu am eu milltir sgwâr wrth ymweld â'r parc a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol fel goleuo'r goeden Nadolig yn y pentref.

Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd da i blant ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn dda drwy gydol y sesiynau ac yn annog y plant i ymuno mewn caneuon Cymraeg. Mae hyn yn cael effaith fuddiol ar ddealltwriaeth plant o'r iaith.

Mae ymarferwyr yn darparu ystod o brofiadau buddiol er mwyn meithrin datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn codi ymwybyddiaeth plant o bobl sy'n llai ffodus drwy drefnu casgliad ar gyfer y banc bwyd lleol a chasglu dillad. Mae'r plant yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu dealltwriaeth o wahanol ddiwylliannau drwy ddysgu am flwyddyn newydd Tsieineaidd a Divali.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn dechrau datblygu gweithdrefnau defnyddiol i arsylwi ac asesu eu datblygiad. Mae eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r disgwyliadau ar gyfer pob maes dysgu yn datblygu'n addas ac maent yn dechrau defnyddio gwybodaeth o arsylwadau i nodi'r camau nesaf yn nysgu'r plant. Mae ymarferwyr yn rhoi gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am sut mae eu plant yn symud ymlaen yn eu dysgu.

**Yr amgylchedd: Digonol**

Mae'r rheolwyr yn sicrhau eu bod yn darparu amgylchedd cartrefol a chroesawgar i blant. Yn ystod y sesiynau, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y drysau a'r giât allanol ar gau ac maent yn gofyn i bob ymwelydd lofnodi'r llyfr ymwelwyr. Ceir arddangosfa o luniau'r ymarferwyr ac ychydig o wybodaeth amdanynt yn y cyntedd, a hynny er budd rhieni ac ymwelwyr. Mae'r rheolwyr yn gweithredu system gadarn i sicrhau bod yr holl blant yn gadael ar ddiwedd sesiwn gyda rhiant neu ofalwr sy'n wybyddus i'r rheolwyr.

Am fod y lleoliad wedi tyfu yn ei faint, mae'r rheolwyr wedi adrefnu'r amgylchedd yn briodol ac, at ei gilydd, mae'n darparu ardaloedd dysgu a chyfleoedd dysgu priodol i'r plant. Maent yn sicrhau amrywiaeth eang o adnoddau da ar gyfer y plant. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr pob tro'n defnyddio'r holl offer yn ddigon effeithiol ar hyn o bryd i ymestyn profiadau dysgu'r plant. Er enghraifft, nid ydynt yn defnyddio'r offer i ddatblgyu medrau corfforol yn ddigon rheolaidd mewn sesiynau.

Mae yna systemau effeithiol yn eu lle ar gyfer sicrhau bod offer a systemau yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Er enghraifft, caiff yr offer trydanol a'r offer diffodd tân eu gwirio'n flynyddol. Mae asesiadau risg addas yn eu lle sydd yn cael eu diweddaru'n flynyddol. Fodd bynnag nid yw arweinwyr wedi eu diweddaru i ymgorffori'r newidiadau diweddar fel casglu plant o'r ysgol a sichrau bod y piano'n ddiogel. Er bod ymarferwyr yn cwblhau rhestr wirio yn ddyddiol, nid yw'r cofnodi bob amser yn gwbl effeithiol ac nid yw'r arweinwyr bob amser yn sicrhau bod camau amserol mewn lle i leihau risgiau posibl.

Mae'r rheolwyr yn darparu amrywiaeth o adnoddau glân a phriodol sy'n cael eu cadw'n dda ac, at ei gilydd, maent yn cael eu storio o fewn cyrraedd y plant. Fodd bynnag, nid yw pob agwedd ar yr amgylchedd bob amser yn cynnig cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu medrau annibynnol yn llawn.

Mae'r rheolwyr wedi bod yn rhagweithiol wrth ddefnyddio rhan o'r cyntedd i greu tŷ bach ychwanegol ar gyfer yr ymarferwyr ac hefyd maent wedi creu cwpwrdd storio pwrpasol yn y cyntedd. O ganlyniad, mae ganddynt un tŷ bach ar gyfer pob 10 plentyn.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol**

Yn dilyn cynnydd yn niferoedd plant, bu cyfnod o geisio ymateb i heriau newydd a ffurfio tîm cymharol newydd o ymarferwyr. Gyda help diweddar gan swyddogion yr awdurdod lleol mae'r arweinydd yn rheoli'r newid yn well. O ganlyniad, mae mwy o ffocws ar godi safonau a chryfhau'r ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at wireddu gweledigaeth yr arweinydd o ddarparu awyrgylch ofalgar, gartrefol ac ysgogol i'r plant.

Mae rolau a chyfrifoldebau staff bellach wedi'u diffinio'n glir ac mae rhan fwyaf o staff yn deall ac yn dechrau cyflawni eu rolau'n fwy llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r rheolwyr bob amser yn sicrhau bod eu trefniadau recriwtio yn ddigon cadarn am nad ydynt yn sicrhau bod gan bob ymarferwr ddau eirda. O'r sampl o ffeiliau staff, dim ond un geirda oedd ar gael ar eu cyfer a'r rheini wedi eu caffael yn ddiweddar iawn er bod yr ymarferwyr wedi bod yn gweithio yn y lleoliad ers misoedd. Mae ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant mewnol ar weithredu'r cyfnod sylfaen er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u gwaith. Mae hyn yn dechrau dylanwadu ar y modd y mae staff yn darparu ar gyfer y plant. Ers mis Ionawr, mae'r arweinwyr wedi sefydlu trefn ddyddiol gyson i ddarparu profiadau dysgu sy'n bodloni gofynion y cyfnod sylfaen yn briodol. Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd i alluogi ymarferwyr i rannu safbwyntiau a thrafod anghenion plant. Mae'r sesiynau hyn yn ffurfiol ac yn canolbwyntio ar gynnydd plant yn briodol.

Mae arweinwyr yn sefydlu system addas ar gyfer arfarnu gwaith yr ymarferwyr. Maent yn arsylwi ac yn archwilio ymarfer yn ystod sesiynau ac yn gosod targedau y cytunwyd arnynt i ddiwallu eu hanghenion datblygiadol. Fodd bynnag, nid yw'r targedau hyn yn cysylltu â thargedau'r lleoliad yn ei gynllun datblygu ac mae hyn yn arafu'r gwelliant sydd angen.

Gyda chymorth swyddogion yr awdurdod lleol, mae’r arweinwyr yn datblygu ystod addas o weithgareddau i adnabod cryfderau a gwendidau’r lleoliad. Mae'r trefniadau'n canolbwyntio ar werthuso'r ddarpariaeth ac ystyried barn ymarferwyr, pwyllgor rheoli, rhieni a gofalwyr a'r awdurdod lleol yn briodol. Mae cyswllt da rhwng y cynllun gwella a chanfyddiadau’r prosesau hunanwerthuso. Fodd bynnag, nid yw’r targedau ar gyfer gwella yn ddigon mesuradwy ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd i arweinwyr adnabod cynnydd. Yn ogystal, nid yw’r broses yn cydymffurfio’n llwyr gyda gofynion y rheoliadau.

Mae’r rheolwyr wedi cyflwyno newidiadau er mwyn hwyluso’r drefn newydd ond nid ydynt wedi hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru o ddigwyddiadau perthnasol. Er enghraifft, ni roddwyd gwybod am ymarferwyr newydd nac am newidiadau i’r adeilad.

Mae'r lleoliad yn elwa o bartneriaeth fuddiol gyda rhieni. Er enghraifft, mae arweinwyr yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am weithgareddau drwy wefan gymdeithasol. Mae cysylltiadau cadarnhaol ag ysgolion lleol yn helpu'r profiadau pontio ar gyfer y rhan fwyaf o blant. Mae arweinwyr yn cydweithio yn dda â swyddogion y sir ac maent yn ddibynnol iawn ar y gefnogaeth.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/07/2019

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Cylch Meithrin Llanddarog a Drefach
Ysgol Y Gwendraeth
Drefach
Llanelli
SA14 7AB

31 Mawrth 2021

**Cylch Meithrin Llanddarog a Drefach**

**Canlyniad Adolygu Cynnydd**

Bernir bod Cylch Meithrin Llanddarog a Drefach wedi gwneud cynnydd priodol o ran y materion allweddol ar gyfer gweithredu, ac wedi dangos gallu digonol i wella yn dilyn yr adolygiad gan AGC ac Estyn yng Ngwanwyn 2021. Tynnwyd enw'r lleoliad oddi ar y rhestr o leoliadau y mae angen iddynt gael eu monitro. Ni fydd rhagor o waith arolygu dilynol gan AGC ac Estyn mewn perthynas â'r arolygiad hwn.

Yn gywir

M. W. Williams

**Kevin Barker**
Pennaeth Gofal Plant a Chwarae
Arolygiaeth Gofal Cymru

**Mererid Wyn Williams**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol
Estyn

AGC/CIW, Swyddfa Llywodraeth Cymru/Welsh Government office,
Parc Busnes Rhydycar/Rhydycar Business Park, Merthyr Tudful/Merthyr Tydfil, CF48 1UZ
Ffôn/Telephone 0300 7900 126
agc@llyw.cymru • ciw@gov.wales
www.careinspectorate.wales
********
Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.